

CYFEIRLYFR MODYLAU

DISGYBLAETH ACADEMAIDD PLENTYNDOD, IEUENCTID AC ADDYSG

LEFEL 7

YR ATHROFA ADDYSG A'R DYNIAETHAU

2023-24

TUDALEN GYNNWYS

Rhif Tud

CYFLWYNIAD..... 1

MODYLAU 2

CYFLWYNIAD

Mae'r Cyfeiriadur Modylau hwn yn cynnwys yr holl fodylau ar gyfer Lefel 7 o fewn Disgyblaeth Academaidd Plentyndod, leuenctid ac Addysg ym mlwyddyn academaidd 2023-2024.

Mae'r cyfeiriadur hwn yn mynd gyda'r Llawlyfr Rhaglen Astudio, a fydd yn rhoi manylion y modylau y byddwch yn eu hastudio ar gyfer eich rhaglen eleni yn yr adran 'Rhaglen Astudio'. Gall y cyfeiriadur hwn gynnwys modylau sy'n rhedeg ar raglenni astudio eraill o fewn eich Disgyblaeth Academaidd/Athrofa. Os oes angen cymorth arnoch i adnabod modylau eich rhaglen astudio, cysylltwch â'r Rheolwr Rhaglen (y mae ei enw a'i fanylion cyswllt wedi'u rhoi yn y Llawlyfr Rhaglen Astudio sy'n mynd gyda'r ddogfen hon), neu Swyddfa'r Athrofa berthnasol.

Mae'r Brifysgol wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth mor lawn a chywir â phosibl, ond dylech nodi ei bod yn anochel y bydd rhai mân newidiadau yn digwydd i drefniadaeth y modylau rhwng y cyfnod cynllunio ac amser addysgu'r modylau. Byddwn yn ceisio sicrhau y bydd cyn lleied o newidiadau â phosibl, ac fe gewch ddigon o rybudd o flaen llaw os bydd unrhyw newid. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe baech yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau defnyddiol y gallem eu gwneud i'r llawlyfr yn y dyfodol.

MODYLAU

MA Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Chymuned

ECCP7001C	Adfyfrio'n Feirniadol ar Arfer Academaidd a Phroffesiynol
ECGE7005QC	Athroniaeth ac Arfer Ymchwil Cymdeithasol

ECGE7006QC	Traethawd Hir: Plentyndod, Ieuenctid ac Addysg
------------	--

BMPF7110C	Asesu a Chydnabod Dysgu Blaenorol
-----------	-----------------------------------

Doethuriaeth Broffesiynol Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Chymuned

ECCP7001C	Adfyfrio'n Feirniadol ar Arfer Academaidd a Phroffesiynol
ECGE7005QC	Athroniaeth ac Arfer Ymchwil Cymdeithasol

BMPF7110C	Asesu a Chydnabod Dysgu Blaenorol
-----------	-----------------------------------

Cod y Modwl	ECCP7001C
Teitl	Adfyfrio'n Feirniadol ar Arfer Academaidd a Phroffesiynol
Dyddiad	28/10/2022
Lefel	7
Credydau	30
Rhagofynion	Ddim yn berthnasol

AMCAN(ION)

Rhesymwaith y modwl hwn yw cynnig cyfle i fyfyrwyr, yng nghyd-destun y gweithlu plant, pobl ifanc a chymunedau, i nodi eu hamcanion dysgu personol a phroffesiynol eu hunain.

Nod y modwl hwn felly yw:

- Cael y myfyrwyr i ddadansoddi ystod a dyfnder eu dysgu a'u galluedd proffesiynol yn feirniadol, a gwneud cysylltiadau rhwng meysydd gwybodaeth arbenigol hysbys ac anhysbys, er mwyn caniatáu addasu a newid a allai gael effaith uniongyrchol ar wella eu harfer proffesiynol a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Datblygu ymarferwyr adfyfyriol / atgyrchol a galluogi myfyrwyr i nodi nodau a dyheadau datblygu personol.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- Dadansoddi profiadau, gwybodaeth a galluedd proffesiynol yn feirniadol (anogir myfyrwyr nad ydynt mewn lleoliadau arfer cyfredol i ymwneud â chyd-destun dysgu proffesiynol).
- Adfyfrio ar bwyntiau dysgu allweddol yn eu gyrfaedd, a gwerthuso sut maen nhw'n rheoli eu dysgu eu hunain, yn datrys problemau ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau arwain a rheoli prosiectau.
- Archwilio cysyniadau, damcaniaethau a modelau yn fanwl gan gynnwys materion sydd y tu hwnt i'w maes arfer uniongyrchol yn y gweithle.
- Dangos dealltwriaeth feirniadol o'r ffyrdd y mae datblygiadau a phrosesau ym maes polisi gwleidyddol a chymdeithasol yn effeithio ar arfer proffesiynol.

CYNNWYS DANGOSOL

- Nodi'r dysgu anffurfiol lefel uchel mae'r myfyriwr wedi'i gyflawni, gyda llawer ohono i raddau helaeth yn ymhlwg neu'n cael ei ystyried yn rhan o allu cyffredinol person, yn hytrach na rhywbeth sydd wedi'i ddysgu neu'i gynllunio'n weladwy o fewn astudiaeth ffurfiol. Dominyddir y disgwrs am ddysgu gan wybodaeth benodol, anghyd-destunol; felly mae'r myfyriwr yn aml yn ei chael yn anodd disgrifio agweddau mwy cymhleth eu gwybodaeth broffesiynol a'u gwaith, a natur eu harbenigedd. Caiff gwahanol deipolegau dysgu anffurfiol eu dadansoddi a'u defnyddio i gynorthwyo i nodi a dadansoddi dysgu. Yn ogystal mynegir ac adolygir dysgu mwy ffurfiol.

- Nodi, trwy'r adolygiad dysgu, yr hyn mae'r myfyrwyr eisoes wedi'i ddysgu, a chynorthwyo i adnabod y dysgu arfaethedig sydd ei angen o ran eu gwaith. Bydd y myfyrwyr yn mynd i'r afael ag amrywiol ddulliau o godeiddio gwybodaeth a'i sylfaen ddisgyblaethol ac annisgyblaethol, i alluogi archwilio'r mathau a'r ffurfiau o wybodaeth a ddefnyddir ganddynt yn eu harfer proffesiynol, a pherthynas hynny â theori a modelau cyfredol. Gwneir hyn tra'n rheoli'r hunan, y swydd, a pharhad y dysgu, yng nghyd-destun amser ac adnoddau cyfyngedig, blaenoriaethau croes a pherthnasoedd cymhleth rhwng ac o fewn proffesiynau. (Bydd y cynllun hefyd yn dangos a ellir hawlio credyd am ddysgu drwy brofiad).
- Creu cynllun dysgu unigol a fydd yn sylfaen ar gyfer gweddill y rhaglen ddysgu. Rhoddir cyngor ac arweiniad i'r myfyrwyr ar sut i ddadansoddi eu cymwysedau, eu hanghenion, eu dyheadau a'u gobeithion eu hunain, yng nghyd-destun eu lleoliad penodol yn y gweithle.
- Bydd caffael gwybodaeth yn gysylltiedig â meysydd cymhleth, a bydd yn ofynnol i'r myfyrwyr feistroli sylfaen wybodaeth bersonol neu ffurfiol eang yn ymwneud â'u maes gwaith a'i gyd-destun ehangach. Yn ogystal, bydd disgwyl iddynt ddatblygu a gwerthuso ystod o gysyniadau, damcaniaethau a modelau sy'n berthnasol i'w gwaith eu hunain.
- Bydd y modwl yn archwilio disgwrs penodol yn gysylltiedig â chefnogi cyd-destunau diwylliannol ac ieithyddol yn ymwneud â Chymru, a chyd-destunau rhyngwladol lle bo'n berthnasol. Rhoddir cyfle i'r rhai sy'n gweithio yng Nghymru werthuso'n feirniadol oblygiadau hyrwyddo a chefnogi cyd-destunau iaith leiafrifol o ran polisi ac arfer cyfrwng Cymraeg / dwyieithog.
- Rhoddir opsiwn i'r myfyrwyr fynd ar gwrs preswyl ychwanegol i gefnogi'r daith ddysgu bersonol (byddai cost ychwanegol i'r myfyrwyr).

Dyraniad Amser Astudio

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu wedi'i amserlennu	20	7%
Dysgu'n annibynnol	280	93%
Dysgu drwy leoliadau		
CYFANSWM	300	100%

ASESU

Elfen Asesu 1

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Portffolio	5-6 elfen (cyfwerth â 5500 o eiriau)	70%

Er enghraifft:

- Cynllun dysgu unigol
- Tystiolaeth o Arfer Adfyfyriol / Atgyrchol
- Map Cysyniadau sy'n dangos ystod o gysyniadau, damcaniaethau a modelau sy'n berthnasol i'w gwaith a'u harfer eu hunain
- Astudiaeth achos sy'n archwilio'n fanwl gyd-destunau eu gweithle a'u meysydd diddordeb i nodi meysydd allweddol ar gyfer ymchwil a dadansoddi yn y dyfodol.

Elfen Asesu 2

☐ Arholiad
ysgrifenedig

☐ Gwaith cwrs

☒ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Cyflwyniad	15 munud	30%

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	70%
Ymarferol	30%
CYFANSWM	100%

RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Caiff myfyrwyr eu cyfeirio at ddeunydd darllen penodol, a/neu ddeunydd priodol arall, ac fe'u hanogir i archwilio posibilïadau ymchwil yn eu meysydd arbenigol eu hunain

Cod y Modwl	ECCP7001C	
Teitl y Modwl	Adfyfyrio'n Feirniadol ar Arfer Academaidd a Phroffesiynol	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Boud, D., 2001. Using journal writing to enhance reflective practice. <i>New directions for adult and continuing education</i> , 2001(90), pp.9-18	☐
Hanfodol	Emslie, M., 2009. Researching reflective practice: a case study of youth work education. <i>Reflective practice</i> , 10(4), pp. 417-427.	☒
Hanfodol	Essential Costley, C., Elliott, G.C. and Gibbs, P., 2010. Doing work-based research: Approaches to enquiry for insider researchers. Sage.	☒
Hanfodol	Brock, A. (Ed). (2015). <i>The early Years reflective practice handbook</i>	☒
Pellach	Bassot, B., 2016. <i>The reflective practice guide : an interdisciplinary approach to critical reflection</i> . Abingdon, Oxon :: Routledge.	☒
Pellach	Belton, B., Hill, J., Peaper, J. and Salter, T., 2011. <i>Supervision: Praxis and Purpose Developing a Critical Model of Practice for Those Working With</i>	☒

	<i>Children and Young People Post Munro</i> . Russell House Pub Ltd.	
Pellach	Cottrell S., 2021. <i>Skills for success: personal development and employability</i> . 4 edn. London: Red Globe Press.	☒
Pellach	Coffield, F., Moseley, D., Hall, E. and Ecclestone, K. (2004) <i>Learning Styles and Pedagogy in Post-16 Learning: a systematic and critical review</i> . London: Learning and Skills Research Centre. University of Newcastle upon	☐
Pellach	Collins R. and Fillery-Travis A. 2015 <i>Transdisciplinary Problems: The Teams Addressing them and their Support Through Team Coaching</i> . In: Gibbs P. (eds) <i>Transdisciplinary Professional Learning and Practice</i> . Springer, Cham	☒
Pellach	Craft, A. and Paige Smith , A., 2011. <i>Developing reflective practice in the early years</i> . 2 edn. Maidenhead: Open University Press.	☒
Pellach	Fillery-Travis, A.J., 2014. <i>The framework of a generic DProf programme—a reflection on its design, the relational dimension for candidates and advisers and the potential for knowledge co-creation</i> . <i>Studies in Higher Education</i> , 39(4), pp.608-620.	☐
Pellach	Moon, J. A. (2006). <i>Learning Journals - A Handbook for Reflective Practice and Professional Development</i> , Abingdon: Routledge.	☐
Pellach	Roffey-Barensten J. and Malthouse, R., 2017. <i>Reflective practice in the lifelong learning sector</i> . Thousand Oaks, CA: Sage Publications.	☒
Pellach	Schohn, D.A., 1983. <i>The reflective practitioner: How professionals think in action</i> . Basic books	☐
Pellach	TyneLundgren, H. and Poell, R.F., 2016. On critical reflection: A review of Mezirow's theory and its operationalization. <i>Human Resource Development Review</i> , 15(1), pp.3-28	☐
Pellach	http://www.learningstyles.net/ http://psychology-tools.com/myers-briggs-type-indicator	☒

Côd y Modwl	ECGE7005QC
Teitl	Athroniaeth ac Arfer Ymchwil Cymdeithasol
Dyddiad	25/03/2020
Lefel	7
Credydau	30
Rhagofynion	

AMCAN(ION)

- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau manwl yn ymwneud â methodolegau ymchwil cymdeithasol a dulliau ymchwil sy'n briodol i ymchwil gydag ac ar gyfer plant ifanc, plant, pobl ifanc, oedolion a grwpiau sydd mewn perygl o gael eu hallgau o fewn lleoliadau cymunedol neu gyd-destunau addysgol ehangach.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- gwerthuso'n feirniadol natur cysyniadau athronyddol mewn ymchwil ansoddol a sut maent yn wahanol i gysyniadau ymchwil meintiol;
- ymgymryd â dadansoddi beirniadol a gwerthuso methodoleg ymchwil, gan nodi oblygiadau ar gyfer arfer a/neu eu cymwysiadau mewn polisïau a chyd-destunau;
- adfyfrio'n feirniadol ar y fframweithiau moesegol a'r oblygiadau cyfreithiol cymhleth sydd wrth wraidd pob ymchwil, a dadansoddi oblygiadau moesegol penodol ymchwil ar gyfer a gyda phlant ifanc, plant, pobl ifanc, oedolion a grwpiau sydd mewn perygl o gael eu hallgau, o fewn lleoliadau cymunedol neu gyd-destunau addysgol ehangach;
- ystyried ar lefel uwch rôl adfyfrio o fewn y broses ymchwil trwy gyflwyno eu gwaith yn briodol, oddi mewn i fframweithiau moesegol a fframweithiau ymchwil, gyda dealltwriaeth o ofynion meddwl yn feirniadol.

CYNNWYS DANGOSOL

- Gwerthusiad manwl o drafodaethau patrymol ynghylch methodolegau ansoddol, meintiol a chymysg.
- Dadansoddiad o gynlluniau ymchwil o'r ddau draddodiad e.e. damcaniaeth seiliedig, ethnograffeg, ffenomenoleg, astudiaethau achos, ymchwil cyfranogol rhyddfrefniol, ymchwil drwy arolwg, ymchwil arbrofol ac ymchwil pragmatig.
- Archwiliad o sut caiff ymchwil ei weithredu trwy amrywiaeth o ddulliau y gellir eu rhannu, at ddibenion dosbarthu, yn ddulliau â phwyslais ansoddol a dulliau â phwyslais meintiol e.e. arsylwi cyfranogwyr yn ethnograffig, cyfweiliadau, grwpiau ffocws, dulliau cyfranogol, arolygon a grwpiau rheolydd. Ystyriaeth o ddulliau methodolegol cymysg.
- Archwiliad dadansoddol o heriau darllen data ymchwil gwreiddiol; cynigir cyfleoedd i fyfyrwyr drafod a dadansoddi ymchwil gwreiddiol e.e. papurau ymchwil, erthyglau cylchgronau a adolygir gan gymheiriaid, a'u prosesau cynllunio'u hunain a llunio cwestiynau ymchwil.

- Archwiliad o bwysu a mesur ymchwil, yn cynnwys perchenogaeth, effaith a diben ymchwil. Gwerthusiad o'r gwahaniaeth rhwng trafodaeth feirniadol a dealltwriaeth ddisgrifiadol o fewn gwaith academiaidd a pholisi cymdeithasol.
- Trafodir yn fanwl heriau moesol a moesegol ymchwil, yn enwedig ymchwil gyda phlant, pobl ifanc a'r rheini sy'n cael eu hallgau, a'u gosod o fewn fframweithiau cyfreithiol ac arfer da. Rhoddir ystyriaeth feirniadol i faterion moesegol a chyfreithiol yn ymwneud â chyfrinachedd, anhysbysrwydd, mynediad, twyll a chydysniad gwybodus. Pwysleisir y gofyniad i gydymffurfio â chanllawiau swyddogol sefydliadau megis Cymdeithas Ymchwil Addysg Prydain / British Educational Research Association (BERA) a Chymdeithas Gymdeithasegol Prydain / British Sociological Association (BSA). Ystyrir gofynion cyfreithiol cyfredol o ran diogelu data a diogelu plant.
- Archwiliad beirniadol o egwyddorion ac arferion mabwysiadu methodolegau ymchwil cyfranogol sy'n caniatáu i leisiau plant, pobl ifanc, y rheini sy'n cael eu hallgau a chymunedau gael eu clywed yn y broses ymchwil.
- Archwiliad o ddulliau samplu, yn cynnwys samplau cyfle, hapsamplau a samplau haenedig. Gwerthusir dulliau samplu yn feirniadol o ran yr oblygiadau yn nhermau ymarferoldeb, triongliant, dilysrwydd a dibynadwyedd. Trafodir yn feirniadol fanteision ac anfanteision amrywiol ddulliau o gyflwyno data yn cynnwys canlyniadau meintiol ac ansoddol.
- Dadelfennu rôl yr ymchwilydd mewn perthynas â'r cyfranogwyr. Y berthynas grym rhwng yr ymchwilydd a'r gymuned a archwilir. Rhoddir sylw penodol i'r cysyniad o 'berson fel cyfranogwr' yn ogystal â 'chlywed llais yr unigolyn' ynghyd â'u cyfraniad at atgyrchedd.

Dyraniad Amser Astudio

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	30	10%
Dysgu'n annibynnol	270	90%
Dysgu drwy leoliadau		
CYFANSWM	300	100%

ASESU

Elfen Asesu 1

☐	Arholiad ysgrifenedig	☒	Gwaith cwrs	☐	Ymarferol
--------------------------	------------------------------	-------------------------------------	--------------------	--------------------------	------------------

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Aseiniad Ysgrifenedig	3750 o eiriau	50%

Elfen Asesu 2

☐	Arholiad ysgrifenedig	☒	Gwaith cwrs	☐	Ymarferol
--------------------------	-----------------------	-------------------------------------	-------------	--------------------------	-----------

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Aseiniad Ysgrifenedig	3750 o eiriau	50%

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	
CYFANSWM	100%

RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Côd y Modwl	ECGE7005QC	
Teitl y Modwl	Athroniaeth ac Arfer Ymchwil Cymdeithasol	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Bolton, G. E. J. (2014) <i>Reflective Practice: Writing and Professional Development</i> (4th ed). London: Sage Publications.	☐
Hanfodol	Cohen, L. and Manion, L. (2011) <i>Research Methods in Education</i> (7th ed). London: Routledge.	☒
Hanfodol	Creswell, J. W. (2013) <i>Research Design: Qualitative, Quantitative, and Mixed Methods Approaches</i> (4th ed). London: Sage Publications Ltd.	☐
Hanfodol	Mauthner, M. L., Birch, M., Jessop, J. & Miller, T. (eds) (2012) <i>Ethics in Qualitative Research</i> . London: Sage Publications Ltd.	☒
Hanfodol	Punch, K. F. (2013) <i>Introduction to Social Research: Quantitative and Qualitative Approaches</i> (3rd ed). London: Sage Publications Ltd.	☐
Hanfodol	Llywodraeth Cymru. (2015) <i>Gwneud defnydd effeithiol o ddata a thystiolaeth ymchwil</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru. http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150814-effective-use-of-data-cy.pdf	☒
Pellach	Alderson, P. & Morrow, V. (2011) <i>The ethics of research with children and young people: a practical handbook</i> (2nd ed). London: SAGE.	☒
Pellach	Bell, J. (2014) <i>Doing your research project: a guide for first time researchers in education and social science</i> (6th ed). Milton Keynes: Open University Press.	☐

Pellach	British Educational Research Association https://www.bera.ac.uk/	☒
Pellach	Bryman, A. (2016) <i>Social Research Methods</i> (5th ed). Oxford: Oxford University Press.	☐
Pellach	Clough, P. & Nutbrown, C. A. (2012) <i>Students' Guide to Methodology</i> (3rd ed). London: Sage.	☐
Pellach	Denscombe, M. (2014). <u>The good research guide: for small-scale social research projects</u> (5th ed). Maidenhead: McGraw-Hill/Open University Press.	☐
Pellach	Denzin, N. K. & Lincoln, Y. S. (eds), (2011) <i>The Sage Handbook of Qualitative Research</i> (4th ed). London: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	Flick, U. (2015) <i>Introducing Research Methodology</i> . London: Sage.	☐
Pellach	Kara, H. (2015) <i>Creative Research Methods in the Social Sciences: A Practical Guide</i> . Bristol: Policy Press.	☐
Pellach	Punch, K. F. & Oancea, A. (2014) <i>Introduction to Research Methods in Education</i> . (2nd ed). London: Sage.	☐
Pellach	Salkind, N. J. (2016) <i>Statistics for People Who (Think They) Hate Statistics</i> . (4th ed) London: Sage.	☐

Cod y Modwl	BMPF7110C
Teitl	Asesu a Chydnabod Dysgu Blaenorol
Dyddiad	09/11/2020
Lefel	7
Credydau	60
Rhagofynion	Dim

AMCAN(ION)

- Rhoi cyfle i fynegi dysgu blaenorol.
- Galluogi'r myfyriwr i adolygu, gwerthuso ac adfyfyrio'n feirniadol ar ei brofiad dysgu ei hun a'i werth o ran ymchwil sy'n seiliedig ar arfer.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- mynegi deilliannau dysgu a dysgu a gaffaelwyd o'r rôl broffesiynol, a gweithgareddau eraill;
- esbonio gwerth y dysgu a nodwyd i ymchwil seiliedig ar arfer yn y dyfodol;
- dadansoddi'n feirniadol sut mae dysgu wedi digwydd.

CYNNWYS DANGOSOL

- Nodi o leiaf ddau faes penodol o ddysgu, a deilliannau dysgu cysylltiedig.
- Gwerthusiad beirniadol o ddysgu blaenorol.
- Trafodaeth o rôl y maes/meysydd dysgu mewn ymchwil seiliedig ar arfer yn y dyfodol.

Dyraniad Amser Astudio

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu wedi'i amserlennu	60	10%
Dysgu'n annibynnol	540	90%
Dysgu drwy leoliadau	0	0%
CYFANSWM	600	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 (*Ticiwch un*)

- ☐ **Arholiad ysgrifenedig**
☒ **Gwaith cwrs**
☐ **Ymarferol**

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Portffolio	15000 o eiriau neu gyfwerth	100%

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	0%
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	0%
CYFANSWM	100%

RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Cod y Modwl	BMPF7110C	
Teitl y Modwl	Asesu a Chydnabod Dysgu Blaenorol	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Webster-Wright, A. (2010) <i>Authentic Professional Learning: Making a Difference Through Learning at Work</i> Dordrecht: Springer.	☒
Hanfodol	Darllen ychwanegol yn gysylltiedig â meysydd dysgu penodol	☐
Pellach	Bell, J. and Waters, S. (2014) <i>Doing Your Research Project: A Guide for First-Time Researchers</i> . 6th ed. Maidenhead: McGraw-Hill Education.	☒
Pellach	Boud, D., Docherty, P. and Cressey, P. (2005) <i>Productive Reflection at Work</i> . London: Routledge.	☒
Pellach	Costley, C., Elliott, G., and Gibbs, P. (2010) <i>Doing Work Based Research</i> . London: Sage.	☒
Pellach	Gray, D. (2014) <i>Doing Research in the Real World</i> . London: Sage.	☒
Pellach	Gibbons, M., Limoges, C., Nowotny, H., Schwartzman, S., Scott, P. and Trow, M. (1994) <i>The New Production of Knowledge: The Dynamics of Science and Research in Contemporary Societies</i> . London: Sage.	☒
Pellach	Rossmann, G. B. and Rallis, S.F (2016) <i>An Introduction to Qualitative Research: Learning in the Field</i> . 4th ed. London: Sage.	☐
Pellach	Wenger-Trayner, E., Hutchinson, S., Kubiak, C., Wenger-Trayner, B. and Fenton-O'Creevy, M. (2015) <i>Learning in Landscapes of Practice</i> . 1st ed. London: Routledge.	☒

Cod y Modwl	ECGE7006QC
Teitl	Traethawd Hir: Plentyndod, leuenctid ac Addysg
Dyddiad	22/02/2023
Lefel	7
Credydau	60
Rhagofynion	

AMCAN(ION)

- Galluogi myfyrwyr i gynllunio a chynnal ymchwiliad manwl i bwnc sy'n berthnasol i gynllun gradd / cyd-destun arfer proffesiynol y myfyriwr.
- Rhoi cyfle i gymhwyso dealltwriaeth o fethodoleg a dulliau ymchwil i'r ymchwiliad a chaniatáu i fyfyrwyr ddangos eu gallu i weithio gydag ymreolaeth gymharol wrth ymgymryd â darn estynedig, manwl o ddysgu annibynnol.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- cwblhau prosiect ymchwil sylweddol sy'n adlewyrchu sgiliau priodol o ran cymathu, cyfod, dadlau, cyfathrebu a chyflwyno, mewn dewis faes sy'n berthnasol i'w gynllun gradd;
- cwblhau ei ymchwil a chyflwyno dogfen orffenedig o fewn yr amser a bennwyd ac i safonau a gytunwyd;
- manteisio ar gysyniadau, egwyddorion ac arferion a gyflwynwyd mewn modylau eraill a dangos cysylltiadau a pherthnasoedd;
- pennu cyflwr presennol gwybodaeth mewn maes penodol a chyfrannu at y wybodaeth honno.

CYNNWYS DANGOSOL

Mae'r modwl hwn yn ei hanfod yn ddarn o waith unigol, hunangyfeiriol, y bydd ei gynnwys yn benodol i'ch cynllun gradd / maes proffesiynol a'ch diddordebau:

- Cynllunio, rheoli a gweithredu prosiect ymchwil manwl sy'n adeiladu ar/cyfrannu at wybodaeth a/neu arfer.
- Defnyddio amrywiaeth o sgiliau rheoli prosiectau i reoli amser ac adnoddau eraill, rheoli perthnasoedd, a chynnal cyfathrebu rheolaidd.
- Deall a chymhwyso materion ymarferol o ran ymgymryd ag ymchwil annibynnol, yn cynnwys: dysgu a datblygu annibynnol; ystyriaethau moesegol yn ymwneud â buddiannau rhanddeiliaid; ymchwil mewnol.
- Archwilio llenyddiaeth briodol, a llunio adolygiad llenyddiaeth, sy'n dangos dealltwriaeth gysyniadol a damcaniaethol uwch a lefel uchel o werthuso beirniadol.
- Y gallu i gyfiawnhau a defnyddio dulliau priodol o ymchwil ansoddol a/neu feintiol a dadansoddi data i fodloni anghenion y pwnc a ddewiswyd.

- Y gallu i syntheseiddio a dehongli data a grëwyd gan ymchwil, a gwerthuso hyn yng nghyd-destun llenyddiaeth briodol.
- Ystyriaeth o'r cysylltiadau rhwng ymchwil a chyd-destunau proffesiynol, gan ddangos sut y gallai cynnyrch ymchwil gyfoethogi neu wella arfer, neu wella deilliannau, plant/pobl ifanc/oedolion sy'n agored i niwed / cymunedau.
- Y gallu i fynegi pob agwedd ar y prosiect ymchwil yn glir ac yn rhesymegol, ac i lunio traethawd hir sy'n cynnwys trafodaeth a ddadleuir yn fedrus ar ganfyddiadau ymchwil, a chasgliadau clir. Gall hyn fod naill ai'n astudiaeth empirig neu'n adolygiad llenyddiaeth.

Dyraniad Amser Astudio

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu wedi'i amserlennu	18	3%
Dysgu'n annibynnol	582	97%
Dysgu drwy leoliadau		
CYFANSWM	600	100%

ASESU

Elfen Asesu 1

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Traethawd Hir	15,000 o eiriau	100%

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	
CYFANSWM	100%

RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Caiff myfyrwyr eu cyfeirio at ddeunydd darllen penodol, a/neu ddeunydd priodol arall, ac fe'u hanogir i archwilio posibilïadau ymchwil yn eu meysydd arbenigol eu hunain

Cod y Modwl	ECGE7006QC	
Teitl y Modwl	Traethawd Hir: Plentyndod, leuenctid ac Addysg	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	BSA. (2017) <i>Statement of Ethical Practice for the British Sociological Association</i> . Durham: British Sociological Association.	☒
Hanfodol	Bos. (2020). <i>Research ethics for students in the social sciences</i> (First edition, 2020.). Springer International Publishing.	☒

Hanfodol	BERA (2018) BERA Guidelines for Ethical Research (Fourth Edition) BERA	☒
Hanfodol	Buckler,S and Walliman,N., (2016) <i>Your dissertation in education</i> . Los Angeles :: SAGE.	☒
Hanfodol	Jessop, J. (2012) <i>Ethics in Qualitative Research</i> . London: Sage.	☐
Hanfodol	Punch. K. F. (2013) <i>Introduction to Social Research: Quantitative and Qualitative Approaches</i> (3 rd ed). London: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	Bell, J. (2014) <i>Doing your research project: a guide for first time researchers in education and social science</i> (6 th ed). Milton Keynes: Open University Press.	☐
Pellach	<i>British Educational Research Journal</i>	☒
Pellach	Bryman, A. (2016) <i>Social Research Methods</i> (5 th ed). Oxford: Oxford University Press.	☐
Pellach	Creswell, J. W. (2014) <i>Research Design: Qualitative, Quantitative, and Mixed Methods Approaches</i> (4 th ed). London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Denscombe, M. (2014) <i>The Good Research Guide: for small-scale social research projects</i> (5th ed). Maidenhead: Open University Press.	☐
Pellach	Denzin, N. K. & Lincoln, Y. S. (eds), (2018) <i>The Sage Handbook of Qualitative Research</i> (45 ^h ed). London: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	Easterby-Smith, M., Thorpe, R. & Lowe, A. (2015) <i>Management Research: An Introduction</i> (5 th ed). London: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	Johnson, B. & Christensen, L. (2011) <i>Educational Research: quantitative, qualitative and mixed approaches</i> . London: Sage.	☐
Pellach	Kumar, R. (2014) <i>Research Methodology: A Step-by-Step Guide for Beginners</i> (4th ed). Sage Publications: London.	☐
Pellach	Silverman, D. (2013) <i>Doing Qualitative Research: A Practical Handbook</i> (4 th ed). London: Sage Publications Ltd.	☒